OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2022 Rhif 620 (Cy. 141)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 45 (Ynysforgan) i Gyffordd 46 (Llangyfelach), Abertawe) (Terfyn Cyflymder 50 mya Dros Dro) 2022

*Gwnaed* *8 Mehefin 2022*

*Yn dod i rym* *12 Mehefin 2022*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o drafforddd yr M4, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r drafforddd oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd neu o ddifrod difrifol i'r ffordd.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 45 (Ynysforgan) i Gyffordd 46 (Llangyfelach), Abertawe) (Terfyn Cyflymder 50 mya Dros Dro) 2022 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 12 Mehefin 2022.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**); a

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "y draffordd" ("*the motorway*") yw'r darn o draffordd yr M4 Llundain i Dde Cymru sy'n ymestyn o bwynt 395 o fetrau i'r dwyrain o drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 45 (Ynysforgan) hyd at bwynt 227 o fetrau i'r gorllewin o drwyniad y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 46 (Llangyfelach), gan gynnwys y darnau o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 45 a'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 46;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

## Cyfyngiad

**3.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau o'r draffordd a bennir yn erthygl 2 i'r Gorchymyn hwn.

## Cymhwyso

**4.**—(1) Nid yw'r cyfyngiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

---

(**1**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

**Atal dros dro**

**5.** Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau modur ar y darnau o'r drafffordd a bennir yn erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn yn gymwys.

**Cyfnod para'r Gorchymyn hwn**

**6.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 8 Mehefin 2022

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru